| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 27 Mehefin 2024 |
| **Pwnc:** | Log Gweithredodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm Dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor am statws y gweithredoedd / penderfyniadau y cytunwyd arnynt. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Yn ei gyfarfod ar 18 Ebrill 2024, derbyniodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adroddiad yn rhoi gwybod iddynt am ganlyniad darn o waith a gwblhawyd i fodloni gofynion Datganiad Sefyllfa'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) mewn perthynas â Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol ar Heddlu 2022 a oedd yn argymell bod pwyllgorau archwilio'n gwerthuso eu heffaith a nodi meysydd i'w gwella.

1.2. Gofynnwyd i aelodau ystyried canlyniad yr adroddiad, argymhellion CIPFA ar gyfer gwella a'r camau y mae rheolwyr ac aelodau'r Pwyllgor yn eu cynnig i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

1.3. Yn ystod trafodaeth ynglŷn â sut y gallai'r Pwyllgor gael mwy o effaith a bod yn fwy rhagweithiol, yn hytrach nac ymatebol, awgrymodd aelod y dylid cadw log gweithredoedd ar ôl pob cyfarfod er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor fonitro'r gweithredoedd/penderfyniadau y cytunwyd arnynt o ran eu cynnydd a'u cwblhau.

## 2. Argymhellion

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r camau y manylir arnynt yn y tabl isod a'i fod yn fodlon â'r camau a roddwyd ar waith.

## Log Gweithredoedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 18/04/24 | 3 | Y Pennaeth Archwilio a Risg i greu log gweithredoedd i fonitro cynnydd yn erbyn gweithredoedd/penderfyniadau sy’n cael eu cytuno ym mhob cyfarfod. | Pennaeth Archwilio a Risg | Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi datblygu Log Gweithredoedd a bydd yn ei gyflwyno i bob cyfarfod o'r Pwyllgor. | Cwblhawyd<br><br>Ar waith o 27/06/24 |
| 2 | 18/04/24 | 3 | Y Pennaeth Archwilio a Risg i anfon copi o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor at aelodau’r Pwyllgor, gan ddangos y newidiadau sy’n cael eu hargymell gan CIPFA, er mwyn i’r aelodau gynnig sylwadau arno cyn i’r Pwyllgor ei adolygu’n ffurfiol ym mis Mehefin 2024. | Pennaeth Archwilio a Risg | Mae’r Cylch Gorchwyl wedi cael ei adolygu’n unol ag argymhellion adolygiad CIPFA.<br><br>Copi wedi’i anfon at y Cadeirydd a’r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 ar 13/05/24. Derbyniwyd ymatebion ar 20/05/24 a 21/05/24, yn y drefn honno.<br><br>Cyfieithiad Cymraeg wedi’i anfon at aelodau’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 28/05/24, gydag ymatebion i'w cyflwyno erbyn 11/06/24.<br><br>Cyflwynwyd y fersiwn terfynol i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, i’w gymeradwyo’n ffurfiol, ar 27/06/24. | Cwblhawyd |
| 3 | 18/04/24 | 3 | Er mwyn i’r Pwyllgor fod yn fwy rhagweithiol, ystyried treialu dull o friffio’r Pwyllgor ymlaen llaw am | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a | Lle bo’n berthnasol, ystyrir cynnal sesiynau briffio gyda’r Pwyllgor cyn iddo drafod unrhyw eitemau newydd ac anghyfarwydd. | Wedi nodi. |

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | eitem fydd yn ymddangos ar y rhaglen er mwyn cynorthwyo aelodau i ymchwilio'r pwnc a chasglu syniadau cyn i'r mater gael ei ystyried yn ffurfiol gan y Pwyllgor. | Swyddog Adran 151 | | |
| 4 | 18/04/24 | 8 | Yn y dyfodol, diwygio ffurf a chynnwys adroddiadau sy'n ymwneud ag adolygiadau cenedlaethol a'u hargymhellion, yn unol â'r awgrym. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | | |
| 5 | 18/04/24 | 9 | Yn y dyfodol, dylai adroddiadau gan Archwilio Cymru gynnwys adroddiad eglurhaol sy'n nodi pwrpas pob adroddiad a beth a ddisgwylir gan y Pwyllgor wrth ei ystyried. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | | |
| 6 | 18/04/24 | 13 | Yn y dyfodol, dylai'r Adroddiad Seiberddiogelwch Blynyddol gynnwys unrhyw achosion (os bu rhai) lle mae amddiffynfeydd TG / seiberddiogelwch y Cyngor wedi cael eu goresgyn a'r camau adfer a gymerwyd. | Rheolwr TG | | |